



### Datganiad Preifatrwydd (Aelodau Masnachol)

#### Hunaniaeth a Manylion Cyswllt Rheolydd Data

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn gorff ymbarél o gymdeithasau tai yng Nghymru. Fel sefydliad anelwn i:

- Ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth
- Cefnogi a hyrwyddo gwaith ein haelodau
- Bod yn llais i'r sector

#### Ein manylion:

Cartrefi Cymunedol Cymru  
2 Ocean Way, Caerdydd, CF24 5TG  
www.chcymru.org.uk  
02920674810  
privacy@chcymru.org.uk

Rydym yn Elusen Gofrestredig (1128527) ac yn Rheolydd Data Cofrestredig (ZA334456).

#### Data a gesglir a diben prosesu

Fel sefydliad, ni fyddwn ond yn dal yr wybodaeth sy'n hanfodol i ni gyflawni ein rôl fel corff aelodaeth, yn ogystal ag i gysylltu â chi am:

- Eich cynllun gweithredu unigol
- Gwybodaeth gan y sector
- Gwahoddiadau i gyfarfodydd gwybodaeth dwywaith y flwyddyn

Felly, dim ond yr wybodaeth ddilynol y byddwn yn ei chasglu gennych:

- Person cyswllt
- Sefydliad
- E-bost
- Cyfeiriad
- Barn
- Teitl swydd
- Manylion pecynnau aelodaeth
- Rhif ffôn
- Dewisiadau marchnata

Rydym yn defnyddio prosesyddion data sy'n darparu gwasanaethau i ni ac yn ein helpu i brosesu eich data, yn cynnwys Goldvision (ein system CRM) a Sabre Computing (ein cyflenwyr Technoleg Gwybodaeth). Mae gennym gontractau yn eu lle gyda'r prosesyddion hyn sy'n golygu mai dim ond ffyrdd yr ydym wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny y byddant yn defnyddio eich data. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol a dim ond cyhyd ag y rhoddwn gyfarwyddyd iddynt y byddant yn ei gadw.

Yn ogystal â chasglu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol, caiff yr wybodaeth hon hefyd ei chasglu drwy SurveyMonkey. Er bod y sefydliad hwn tu allan i gylch gorchwyl y GDPR, mae wedi cofrestru gyda



Tharian Preifatrwydd yr Unol Daleithiau a chaiff felly ei ystyried yn 'broseswyr data digonol'. Ar ôl trosglwyddo'r data hwn i'n system CRM breifat ein hunain, caiff unrhyw ddata a gedwir ar y systemau hyn ei ddileu ar ôl cyfnod o hyd at 3 blynedd. Gallant gasglu eich cyfeiriad IP a gwybodaeth porwr, ar gyfer dibenion dadansoddi.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw drydydd parti ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol, a dim ond lle mae'n rhwymedigaeth gyfreithlon arnom i wneud hynny y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

### **Sail cyfreithiol ar gyfer prosesu**

Cadwn yr wybodaeth yma dan Erthygl 6 y Rheoliad Prosesu Data Cyffredinol (GDPR) ar gyfer cyflawni contract. Fodd bynnag, caiff eich dewisiadau marchnata a barn eu casglu ar sail diddordeb dilys, gan ein bod angen yr wybodaeth yma i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi.

Mae'r cytundeb aelodaeth, sy'n sefyll rhyngom, yn golygu fod yn rhaid i ni gadw'r data yma arnoch er mwyn i ni gysylltu â chi am y gwasanaeth a ddarparwn a sut y gallwn hyrwyddo eich buddiannau i'n haelodau. Ni fyddwn yn rhoi enwau ein haelodau i chi ond byddwn yn cysylltu â nhw ar eich rhan os ydynt wedi mynegi dewis i dderbyn gwybodaeth amdanoch.

### **Derbynwyr neu gategoriâu derbynwyr**

Gall holl staff Cartrefi Cymunedol Cymru gael mynediad i'r gronfa ddata gwybodaeth a gadwn ar aelodau unigol. Fodd bynnag, caiff y cyfrifiaduron a gliniaduron a ddefnyddir i gael mynediad iddi eu diogelu gan gyfrinair. Mae hefyd yn bolisi gennym y cynhelir gweithdrefnau disgyblu os canfyddir fod aelod o staff yn camddefnyddio data.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd parti os nad ydych yn benodol yn gofyn i chi wneud hynny, neu i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth cyfreithiol.

### **Cyfnod cadw neu feini prawf a weithredwyd**

Byddwn yn cadw'r ffurflen gais y gwnaethoch ei llenwi i ddod yn aelod Masnachol mewn cwpwrdd ffeilio dan glo am gyfnod o flwyddyn. Caiff y cytundeb aelodaeth rhyngom ei adnewyddu ar y pwynt y nodir hynny yn y cytundeb. Os dewiswch beidio adnewyddu eich cytundeb gyda ni, yna byddwn yn cadw'r wybodaeth berthnasol sydd gennym arnoch am gyfnod o un flwyddyn, ond ni fyddwn yn defnyddio'r data a roddwyd.

### **Hawliau unigol dan GDPR**

Dan GDPR, mae gan bob gwrthrych data yr hawliau dilynol:

- **Mynediad** – mae gan bob gwrthrych data hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth a gaiff ei phrosesu gan ein sefydliad. Cysylltwch â [privacy@chcymru.org.uk](mailto:privacy@chcymru.org.uk) gyda theitl pwnc '**Cais Gwrthrych am Wybodaeth**' os gwelwch yn dda. Byddwn angen i chi roi dau ddarn o dystiolaeth yn profi pwy ydych i sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth i'r person cywir.



Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn un mis. Ni chodir tâl am gais gwrthrych am wybodaeth, ond gall ceisiadau mynych a beichus olygu y codir tâl.

- **Unioni** – mae gennych chi, fel y gwrthrych data, hawl i sicrhau y caiff unrhyw ddata anghywir a gedwir amdano ei diweddaru heb oedi. Cysylltwch â [privacy@chcymru.org.uk](mailto:privacy@chcymru.org.uk) gyda theitl pwnc 'Unioni Data' os gwelwch yn dda a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Dileu** - os gwnewch cais i ni ddileu eich gwybodaeth, byddwn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, os mai chi yw'r person cyswllt ar gyfer y sefydliad, ni fyddwn wedyn yn gallu gwiethredu ein cytundeb gyda chi a bydd yn rhaid i chi enwebu pwynt cyswllt arall. Cysylltwch â [privacy@chcymru.org.uk](mailto:privacy@chcymru.org.uk) gyda'r teitl pwnc '**Dileu data**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Cyfyngu prosesu** - mae gennych hawl i gyfyngu'r hyn y defnyddiwn eich data ar ei gyfer. Os, ar unrhyw amser, nad ydych bellach yn dymuno derbyn categori neilltuol o wybodaeth gennym gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda fel y gallwn gyfyngu'r hyn y cysylltwch â chi amdano. Cysylltwch â [privacy@chcymru.org.uk](mailto:privacy@chcymru.org.uk) gyda theitl pwnc '**Cyfyngu Prosesu Data**' a byddwn yn delio gyda'ch cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Gwrthwynebiad i brosesu** - mae gennych hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data ar unrhyw adeg. Os nad ydych mwyach yn dymuno i ni gadw data arnoch, cysylltwch â [privacy@chcymru.org.uk](mailto:privacy@chcymru.org.uk) os gwelwch yn dda gyda'r llinell pwnc '**Gwrthwynebiad i Brosesu**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.